**Memorandwm Esboniadol Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi golwg deg a rhesymol ar effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024").

**Lesley Griffiths**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**13 Mawrth 2023**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud i egluro iaith dechnegol mewn deddfwriaeth ddomestig bresennol ar gyfer biffenylau polyclorinedig. Yn 2020, diwygiwyd Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) 2000 ("Rheoliadau 2000") i adlewyrchu Confensiwn Stockholm newydd a gofyniad yr UE i gael gwared ar offer sy'n cynnwys cyfeintiau o fiffenylau polyclorinedig dros drothwy penodol cyn diwedd 2025. Yn dilyn hynny, tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod rhywfaint o amwysedd yn yr iaith a gyflwynwyd i Reoliadau 2000 gan y diwygiadau hynny yn 2020.

1.2 Ystyrir bod y diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2024 yn angenrheidiol er mwyn rhoi eglurder i randdeiliaid ynghylch cyfeiriadau at gyfeintiau o fiffenylau polyclorinedig mewn offer, drwy gael gwared ar unrhyw amwysedd ynghylch pa ddarnau o offer y mae'n rhaid rhoi'r gorau i'w defnyddio erbyn terfyn amser 2025.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae Rheoliadau 2024 yn egluro diwygiadau a wnaed yn flaenorol gan Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau 2020"). Gwnaed Rheoliadau 2020 ar gyfer Cymru a Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, gan ddefnyddio pwerau a gynhwysir yn adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972. Nid yw'r pwerau hyn bellach ar gael i ni.

2.2 Mae Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud ar sail gyfansawdd. Mae hyn yn cael ei wneud i gynnal llyfr statud cyson ar gyfer busnesau sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Nid oes gwahaniaeth o ran polisi, ac mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan Reoliadau 2024 yn rhai i offeryn statudol Saesneg presennol sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr. Mae'r diwygiadau yn egluro ystyr y rheoliadau presennol ac nid ydynt yn gyfystyr â newid polisi ar gyfer naill ai Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU.

2.3 Gan y bydd Rheoliadau 2024 yn destun craffu gan Senedd y DU, ni ystyrir ei fod yn rhesymol ymarferol i Reoliadau 2024 gael eu gwneud na'u gosod yn ddwyieithog.

### 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adran 2(1) o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 ("Deddf 1999") yn datgan y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, wneud darpariaeth at unrhyw un o'r dibenion a restrir yn Rhan I o Atodlen 1 o Ddeddf 1999; ac mae Rhan II o'r Atodlen honno yn cael effaith ar gyfer

ategu Rhan I. Mae Cyfarwyddeb y Cyngor 96/59/EC ar waredu biffenylau polyclorinedig a terffenylau polyclorinedig wedi'i dynodi'n gyfarwyddeb berthnasol at y dibenion a grybwyllir ym mharagraff 20(2)(i) o Atodlen 1 o Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd y swyddogaethau gwneud rheoliadau yn Adran 2(1) o Ddeddf 1999 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2005 (OS 2005/672) ac fe'u trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.2 Bydd Rheoliadau 2024 yn diwygio Rheoliadau 2000 (OS 2000/1043), fel y'u diwygiwyd yn flaenorol gan Reoliadau 2020 (OS 2020/489).

3.3 Diwygiwyd Rheoliadau 2000 gan Reoliadau 2020 i adlewyrchu Rheoliad Llygryddion Organig Parhaus 2019 yr UE a ail-luniwyd, a gynyddodd ymdrechion i nodi darnau penodol o offer, a rhoi'r gorau i'w defnyddio erbyn 31 Rhagfyr 2025, yn unol â rhwymedigaethau'r UE (a'r DU) o dan Gonfensiwn Stockholm.

3.4 Pan wnaed Rheoliadau 2020, roedd rhywfaint o amwysedd posibl wrth ddehongli pa ddarnau o offer y mae angen eu nodi a'u dihalogi, neu roi’r gorau i'w defnyddio erbyn y terfyn amser sef 31 Rhagfyr 2025.

3.5 Bydd Rheoliadau 2024 yn dileu amwysedd dehongli ynghylch cyfeintiau o fiffenylau polyclorinedig a hylifau sy'n cynnwys biffenylau polyclorinedig mewn pedwar lle yn Rheoliadau 2000, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau 2020.

3.6 Mae Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae biffenylau polyclorinedig yn fath o lygrydd organig parhaus. Mae llygryddion organig parhaus yn sylweddau sydd wedi'u nodi'n wenwynig, yn barhaus, yn fiogronnol ac yn ddarostyngedig i drafnidiaeth pellter hir ar draws ffiniau rhyngwladol. Mae'r DU a'r UE yn Bartïon i Gonfensiwn Stockholm ar lygryddion organig parhaus, cytundeb byd-eang y Cenhedloedd Unedig sy'n ceisio dileu cynhyrchu a defnyddio'r sylweddau hyn, neu gyfyngu ar hynny. Roedd biffenylau polyclorinedig yn un o'r deuddeg sylwedd gwreiddiol sy'n llygryddion organig parhaus a oedd y cyntaf i'w gwahardd o dan Gonfensiwn Stockholm.

4.2 Mae partïon i Gonfensiwn Stockholm wedi ymrwymo i gael gwared ar fiffenylau polyclorinedig rhag cael eu cynhyrchu a'u defnyddio. Mae'r defnydd o fiffenylau polyclorinedig wedi'i reoleiddio yn y DU ers dechrau'r 1980au ond mae rhai ohonynt yn cael eu defnyddio o hyd, yn bennaf mewn offer trawsnewidyddion foltedd uchel yn ein seilwaith ynni cenedlaethol. Gall olewau sy'n cynnwys biffenylau polyclorinedig ollwng o’r offer hyn a mynd i mewn i'r amgylchedd, lle gallant achosi effeithiau iechyd difrifol mewn pobl ac anifeiliaid.

4.3 Ym mis Mai 2001, cyflwynwyd testun Confensiwn Stockholm i'w fabwysiadu gan y Gynhadledd Plenipotenswyr ac roedd yn cynnwys y gofyniad i bartïon i'r Confensiwn nodi darnau penodol o offer a rhoi'r gorau i'w defnyddio erbyn 2025. Daeth y rhwymedigaeth hon yn rhan o gyfraith y DU yn 2020 yn dilyn ail-lunio Rheoliad Llygryddion Organig Parhaus yr UE ym mis Gorffennaf 2019 a oedd yn cynnwys ychwanegu’r terfyn amser 2025 hwn.

4.4 Ers i Reoliadau 2020 ddod i rym, mae Defra wedi nodi amwysedd o ran sut y gellir dehongli rhai cyfeiriadau at gyfeintiau o fiffenylau polyclorinedig. Ar hyn o bryd mae'r rheoliadau'n cyfeirio at gael gwared ar offer sy'n cynnwys cyfeintiau penodol o fiffenylau polyclorinedig, felly gellir eu darllen fel rhai sy'n berthnasol i gyfaint y sylweddau biffenyl polyclorinedig eu hunain yn unig, tra mai'r bwriad polisi gwreiddiol oedd cael gwared ar offer sy'n cynnwys cyfeintiau penodol o 'hylifau sy'n cynnwys biffenylau polyclorinedig'. Y bwriad oedd i'r cyfaint gyfeirio at y cyfaint cyflawn o olewau y mae'r sylweddau biffenyl polyclorinedig yn gymysg ynddynt. Mae hyn yn adlewyrchu arferion hirsefydlog mewn cyfraith ryngwladol a domestig, sef Cyfarwyddeb Biffenylau Polyclorinedig yr UE 96/59/EC, a ddaeth i rym ym 1996, Confensiwn Stockholm y Cenhedloedd Unedig ar Lygryddion Organig Parhaus, y Rheoliadau Biffenylau Polyclorinedig eu hunain, a Rheoliad Lygryddion Organig Parhaus yr UE a ddargedwir.

4.5 Mae hwn yn newid technegol yn unig heb unrhyw newidiadau o ran polisi. Bydd rhai cyfeiriadau at gyfeintiau o fiffenylau polyclorinedig mewn pedair darpariaeth yn cael eu diwygio i gyfeirio at gyfeintiau penodol o 'hylifau sy'n cynnwys biffenylau polyclorinedig'. Bydd hyn yn adlewyrchu'n gliriach fwriad polisi gwreiddiol y pedair darpariaeth hynny a bydd yn sicrhau nad oes amwysedd ynghylch pa ddarnau o offer y mae'n rhaid rhoi'r gorau i'w defnyddio erbyn terfyn amser 2025.

## 5. Ymgynghori

*Ymgynghoriad ffurfiol*

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad dwyieithog ar yr offeryn statudol arfaethedig drafft am chwe wythnos ar blatfform ymgynghori Citizen Space Defra rhwng 19 Mai a 30 Mehefin 2023. Roedd hwn yn ymgynghoriad ar y cyd a gynhaliwyd gan Lywodraethau Cymru a'r DU. Yn ogystal â chyflwyno ymatebion ar y platfform, roedd ymatebwyr hefyd yn gallu ateb drwy e-bost i flwch post Defra a/neu Lywodraeth Cymru a thrwy bostio ymateb wedi'i argraffu i swyddfa Defra.

5.2 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar ddrafft o'r offeryn statudol arfaethedig a fydd yn diwygio pedair darpariaeth yn y Rheoliadau Biffenylau Polyclorinedig, ac yn gofyn am gadarnhad gan randdeiliaid y bydd y diwygiadau arfaethedig yn egluro'r gofynion ar

gyfer cael gwared ar offer sy'n cynnwys biffenylau polyclorinedig erbyn diwedd 2025.

5.3 Cafwyd un ymateb ar ddeg. Roedd deg o'r ymatebwyr yn gefnogol i'r cynigion, gan ddweud eu bod yn cytuno y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn dileu ansicrwydd yn fersiwn bresennol Rheoliadau 2000. Roedd un ymatebydd (cwmni, yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, nad oes ganddo unrhyw offer wedi'u halogi â biffenylau polyclorinedig wedi'u cofrestru yng Nghymru mwyach) yn gwrthwynebu'r diwygiadau arfaethedig a dywedodd y byddai'r cynigion yn cynyddu'r gost a'r amserlen ar gyfer cydymffurfio. Yn dilyn yr ymgynghoriad, ymgysylltodd Defra â'r un ymatebydd a oedd wedi rhag-gweld cynnydd yn ei gostau cydymffurfio i'w helpu i nodi a mireinio ei amcangyfrifon cychwynnol o gost yn fwy cywir.

5.4 Yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ystyriaeth o'r asesiad effaith de minimis a gynhaliwyd wedi hynny gan Defra, yn ogystal â phwysigrwydd y Rheoliadau Biffenylau Polyclorinedig i atal niwed i iechyd pobl a'r amgylchedd, daeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'r casgliad bod y mesurau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad yn gymesur a'u bod wedi cytuno i fwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig i Reoliadau Biffenylau Polyclorinedig ar gyfer Cymru a Lloegr fel y nodir yn y dogfennau ymgynghori.

5.5 Mae crynodeb dwyieithog o ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb y Llywodraeth a gyhoeddwyd ar y cyd gan Defra a Llywodraeth Cymru i'w gweld yma: Crynodeb o’r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth

*Dyletswydd i ymgynghori*

5.6 Mae adran 2(4) o Ddeddf 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, y cyfryw gyrff neu bersonau yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol, diwydiant, amaethyddiaeth a busnesau bach yn y drefn honno ag y maent yn ystyried eu bod yn briodol, ac unrhyw gyrff neu bersonau eraill sy'n briodol yn eu barn hwy, cyn gwneud rheoliadau o dan Adran 2(1).

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.1 Yn unol â chod RIA Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth[1], nid yw RIA wedi'i baratoi ar gyfer yr offeryn hwn gan ei fod yn cynnwys diwygiadau technegol sy'n ofynnol i newid geiriad y gyfraith yn hytrach na'i phwrpas neu'i heffaith, er mwyn osgoi camddehongli posibl.

6.2 Yn 2020 cynhaliodd Defra Asesiad Effaith llawn (IA) a oedd yn darparu asesiad o brif effeithiau diwygiadau 2020 ar Reoliadau 2000. Roedd yr

---

1 https://www.llyw.cymru/cod-asesiad-effaith-rheoleiddiol-gweinidogion-cymru-ar-gyfer-is-ddeddfwriaeth-2021-html

IA hwn yn cynnwys asesiad economaidd llawn o gostau ariannol ac anariannol allweddol, a buddion ariannol ac anariannol allweddol o brofi a disodli offer halogedig, a chael gwared arnynt cyn diwedd eu hoes ddefnyddiol. Ystyriwyd risgiau allweddol, sensitifrwydd a thybiaethau hefyd, yn ogystal ag effaith y diwygiad i Reoliadau 2000 ar fusnesau bach, cyrff cyhoeddus a gweithgynhyrchwyr offer trawsnewidyddion.

6.3 Nid yw'r diwygiadau a wneir drwy'r offeryn hwn yn newid effaith y ddeddfwriaeth bresennol, ac nid oes unrhyw newid i'r polisi presennol. Felly nid oes Asesiad Effaith Integredig pellach wedi'i gynnal ar gyfer yr offeryn hwn.